Hysbyseb Swydd- Cydlynydd Prosiect Cymraeg Byd Busnes

Mae Mentrau Iaith Cymru yn awyddus i benodi unigolyn i gydlynu'r prosiect cyffrous ac arloesol Cymraeg Byd Busnes. Prif ddyletswyddau fydd cydlynu gwaith y swyddogion o fewn y tîm Cymraeg Byd Busnes, datblygu strategaethau hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg i fusnesau mewn amrywiol sectorau a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Bydd y person llwyddiannus yn gyfathrebwr rhagorol, gyda sgiliau rhyngbersonol ardderchog, yn hunan disgybledig ac yn meddu ar ddealltwriaeth o strategaethau hybu ieithyddol.

Cyflog: £24,657 - £27,358 y flwyddyn **Oriau gwaith:** 37 awr yr wythnos.

Cytundeb: Blwyddyn gyda phosibilrwydd o barhad. (Cyfnod prawf o 6 mis)

Lleoliad: Yn ddibynnol ar leoliad yr ymgeisydd llwyddiannus bydd modd trafod pa swyddfa Menter Iaith sydd fwyaf addas. Mae'r swydd yn galw am deithio achlysurol ledled Cymru.

Gwneud Cais: Trwy ddychwelyd ffurflen gais at post@mentrauiaith.cymru

Dyddiad cau: 12pm Dydd Llun 6ed o Awst 2018
Dyddiad cyfweld: 15fed o Awst yn Aberystwyth

Am wybodaeth bellach: http://www.mentrauiaith.cymru/hysbyseb-swydd/swydd-wag/
neu post@mentrauiaith.cymru 01492 643401
Ariennir y swydd gan Lywodraeth Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government